

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fehefin 2013
PWNC	Hyfforddiant Aelodau - Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yng nghyd-destun hyfforddiant i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno gofynion y mesur er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.
Awduron	Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae Canllawiau Statudol Llywodaeth Cymru (sy'n cyd-fynd gyda'r Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011) am adolygu datblygiad personol yn nodi y prif egwyddorion a ganlyn:

- Rhaid sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r awdurdod
- Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle i gael cyfweiliad wedi'i drefnu o flaen llaw rhwng yr aelod a pherson priodol cymwys
- Gall awdurdodau lleol fanylu ar ganlyniad y cyfweiliad mewn cynllun sy'n pennu'r anghenion hyfforddi a datblygu, ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Dylai'r cynllun datblygu personol hwn gael ei roi i'r aelod a'i lofnodi gan yr aelod a'r sawl sy'n adolygu. Dogfen breifat yw hon na ddisgwylir i'r awdurdod na'r aelod ei chyhoeddi, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi manylion yn ei adroddiad blynyddol am unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu y manteisiodd arnynt os yw'n dymuno.
- Dylai awdurdodau lleol fabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer amrywiol swyddi, a gellid defnyddio'r disgrifiadau fel canllaw i'r sgiliau y bydd gofyn i'r aelod perthnasol feddu arnynt.
- Aseiad o anghenion hyfforddi a datblygu yw'r adolygiad, nid adolygiad o berfformiad nac aseiad o ba mor dda y mae aelod yn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pwy fyddai'n berson priodol cymwys i gynnal y cyfweiliadau.

(Gweler y canllawiau statudol llawn yn **Atodiad A**)

2. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymglymu i fod yn gefnogol i'r egwyddor o fod yn datblygu aelodau etholedig yn barhaus, ac mae hyn yn gyson gyda gwaith yr is-grwp hyfforddiant a gyfarfu ym mis Chwefror eleni.

3. Fel sail i'r datblygiadau uchod, mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu cymwyseddau craidd ac ymddygiadau craidd ar gyfer aelodau etholedig, a gyflwynwyd fel rhan o'r pecyn anwytho a dderbyniwyd ar ddechrau'r Cyngor

hwn. Yn ogystal, mae rhai swydd ddisgrifiadau hefyd yn bodoli. Mae angen diweddarau'r uchod i sicrhau eu bod yn gyfredol.

4. Yn ogystal, mae bwriad i beilota trefn o ddatblygu Cynllun Datblygu Personol gyda'r Cabinet yn y lle cyntaf. Mae posibilrwydd y bydd y Cabinet yn edrych ar mwy nag un elfen, megis hyfforddiant a datblygu, ynghyd â pherfformiad. Fodd bynnag, mae'n debygol mai'r elfen 'hyfforddiant a datblygu' yn unig fydd yn berthnasol i weddill aelodau'r Cyngor. Rhagwelir y bydd y Cabinet yn peilota y methodoleg a'r drefn o gynnal y sesiynau yn ystod y cyfnod Medi – Tachwedd 2013.
5. Ar yr un pryd, mae'n ofynol i'r Cyngor ddechrau rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer gweddill yr aelodau i'w galluogi i dderbyn adolygiad o'u angehenion hyfforddiant a datblygu petaent yn dymuno hynny. Yr ydym eisoes yn ymwybodol fod rhai aelodau yn dymuno derbyn hynny gynted ag y bo modd, fodd bynnag, mae eraill eisoes wedi dynodi na fyddant yn dymuno trefn o'r fath.
6. I'r perwyl hwnnw felly, argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu at bob aelod (namyn aelodau'r Cabinet) i esbonio'r cyfleon sy'n codi o'r mesur yng ngyd-destun datblygiad parhaus i aelodau, ofyn iddynt ddatgan unai
 - Eu bod yn rhag-weld ar hyn o bryd eu bod yn dymuno derbyn adolygiad i'r fath
 - Eu bod yn rhag-weld ar hyn o bryd na fyddant yn dymuno derbyn adolygiad o'r fath
 - Nad oes ganddynt farn ar hyn o bryd o'u bwriad.Byddai hynny wedyn yn ein galluogi i fod yn dechrau cynllunio yn realistig o ran sut i weithredu unrhyw drefn.
7. I gyd- fynd â hyn, argymhellir fod cyflwyniad byr yn esbonio cyd-destun y cyfleon sy'n deillio o'r Adolygiad Datblygiad Personol yn cael ei gyflwyno yn y fforymau ardal cyntaf, fydd yn gyfle i'r holl aelodau ddeall y cyd-destun yn well a gofyn unrhyw gwestiynau.
8. Ymhellach, rhagwelir y bydd ambell aelod yn dymuno mynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant. Bydd yn angenrheidiol i ni fod yn realistic o ran adnoddau sydd ar gael. Byddwch eisoes yn ymwybodol fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi datblygu canllawiau ac egwyddorion ynghylch blaenoriaethu adnoddau i ganiatau i aelodau fynychu seminarau allanol ayyb yn eu cyfarfod ar 11 Rhagfyr 2012. Gweler Atodiad B.
9. Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn addasu'r egwyddorion hynny i bwrpas sesiynau hyfforddiant allanol, ac yna yn eu mabwysiadu.

Argymhellion:

10. Ysgrifennu at bob aelod etholedig (namyn aelodau'r Cabinet) a chyflwyno'n gryno yn y fforymau ardal cyntaf gan esbonio gofynion Mesur Llywodraeth Leol yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Personol, gan ofyn iddynt ddatgan diddordeb mewn derbyn adolygiad blynyddol neu beidio. Cyflwynio'n gryno yn y fforyma
11. Addasu'r egwyddorion a'r canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer blaenoriaethu caniatau i aelodau fynychu seminarau allanol ayyb a'u gwneud yn berthnasol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant hefyd a'u mabwysiadu fel rhan o'r uchod.

Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru am adolygu datblygiad Personol**Adolygiad Blynyddol**

2.12 Rhaid sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r awdurdod (ac eithrio arweinydd gweithrediaeth – gweler paragraff 23). Argymhellir bod llawer o anghenion hyfforddi a datblygu aelodau awdurdodau lleol yn cael eu nodi drwy ddefnyddio adolygiadau o'r fath.

2.13 Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle i gael cyfweiliad wedi'i drefnu o flaen llaw rhwng yr aelod a pherson priodol gymwys (gweler paragraffau 2.17-2.22). Gallai'r cyfweiliad gynnwys adolygiad o'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu a dderbyniodd yr aelod dros y flwyddyn ddiwethaf (neu gyfnod priodol os mai newydd ei ethol y mae'r aelod).

2.14 Gallai awdurdodau lleol ystyried manylu ar ganlyniad y cyfweiliad mewn cynllun a gytunwyd sy'n pennu'r anghenion hyfforddi a datblygu, os oes rhai, ar gyfer y flwyddyn i ddod. Argymhellir bod y cynllun datblygu personol hwn yn cael ei roi i'r aelod a'i lofnodi gan yr aelod a'r sawl sy'n adolygu. Dogfen breifat yw hon na ddisgwylir i'r awdurdod na'r aelod ei chyhoeddi, er bod yr aelod yn rhydd i gyhoeddi manylion yn ei adroddiad blynyddol am unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu y manteisiodd arnynt os yw'n dymuno gwneud hynny.

2.15 Wrth gyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer y Freinlen, bydd angen i awdurdodau lleol fabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer swyddi arweinydd, dirprwy arweinydd, aelod gweithrediaeth, aelod craffu, cadeirydd pwyllgor craffu a chadeiryddion pwyllgorau statudol a phwyllgorau ardal. Gellid defnyddio'r disgrifiadau fel canllaw i'r sgiliau y bydd gofyn i'r aelod perthnasol feddu arnynt.

2.16 Asesiad o anghenion hyfforddi a datblygu yw'r adolygiad. Gallai awdurdod lleol ystyried egluro i'r aelodau nad adolygiad o berfformiad nac asesiad o ba mor dda y mae aelod yn cyflawni ei ddyletswyddau yw'r adolygiad. Mater i'r etholwyr ei farnu yn y blwch pleidleisio yw hynny, nid gofyniad statudol.

Priodol Gymwys

2.17 Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pwy ellid ei ystyried yn berson priodol gymwys i gynnal cyfweiliadau ag aelodau awdurdod lleol i drafod eu hanghenion hyfforddi a datblygu fel rhan o'u hadolygiad blynyddol. Gellid dyrannu'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor GD o fewn yr awdurdod. Yn y rhan fwyaf o achosion, efallai nad mater o enwi unigolion fydd hyn, ond yn hytrach, proses o ddisgrifio swydd neu ddeiliad swydd (ond gweler paragraff 2.22 isod). Nid yw'n debyg o fod yn briodol nac yn ddymunol i un person fod â chyfrifoldeb dros gynnal pob un o'r cyfweiliadau.

2.18 Mae gan rai awdurdodau lleol ddulliau amrywiol eisoes o adolygu anghenion hyfforddi a datblygu eu haelodau. Mae'r dulliau'n cynnwys arweinyddion grwpiau'n cynnal cyfweiliadau â'u haelodau neu gyfweiliadau a gynhelir gan yr arweinydd ac aelodau gweithrediaeth. Mae'r ddau ddull yn ffyrdd cwbl dderbyniol o gydymffurfio â gofynion y Mesur.

2.19 Fodd bynnag, hwyrach y byddai'n well gan awdurdodau drosglwyddo'r ddyletswydd i'w swyddogion adnoddau dynol. Os dewisant wneud hynny, gall awdurdodau lleol ystyried gwneud Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y GD) yn gyfrifol am oruchwylio swyddogion adnoddau dynol ar gyfer y rhan hon o'u gwaith. Pe bai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn cael ei bennu'n berson priodol gymwys i gynnal cyfweiliad, yna ni fyddai disgwyl iddo weithio o dan oruchwyliaeth Pennaeth y GD.

2.20 Hwyrach y byddai'n well gan rai awdurdodau logi ymgynghorwyr allanol neu gydweithwyr i gynnal cyfweiliadau ac mae hyn hefyd yn dderbyniol.

2.21 Argymhellir na ddylai'r system gyflwyno unrhyw beth annisgwyl a dylai'r aelodau unigol wybod pwy fydd yn cynnal y cyfweiliad. Gallai awdurdodau lleol ystyried cynnwys opsiwn yn eu trefniadau i aelodau ofyn i Bennaeth y GD drefnu bod person gwahanol yn cynnal eu cyfweiliad os oes rheswm da dros wneud hynny.

2.22 I gloi, rhaid i awdurdodau sicrhau bod unrhyw un sy'n cynnal cyfweiliad wedi derbyn hyfforddiant addas ar gyfer gwneud hynny ac fe'u cynghorir i gysylltu ag WLGA i sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly, hyd yn oed os yw awdurdod wedi dewis dyrannu'r ddyletswydd o gynnal adolygiadau i swydd yn hytrach nag i unigolyn, dylai deiliad y swydd fod wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol cyn dechrau cynnal cyfweiliadau.

Arweinydd Gweithrediaeth yr Awdurdod Lleol

2.23 Nid yw adran 7 y Mesur yn berthnasol i arweinydd gweithrediaeth (neu faer etholedig) awdurdod. Fodd bynnag, gallai fod adegau pan fydd yr arweinydd yn dymuno manteisio ar gyfle hyfforddi neu ddatblygu ac nid oes unrhyw awgrym na ddylent, o gael eu heithrio rhag darpariaethau'r Mesur, allu derbyn hyfforddiant, nac yn wir, gael adolygiad blynyddol neu eu cyfweld gan berson priodol gymwys.

MEINI PRAWF MYNYCHU SEMINARAU ALLANOL A THREFN AR GYFER
GWEITHREDU – Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (11
Rhagfyr 2012)

- Dylai'r aelod etholedig ddal swydd neu gyfrifoldeb yn y maes ar ran y Cyngor a dylia fedru dangos bod mynychu'r "cwrs ychwanegol" yn ei (g)alluogi i ymgymeryd â'u dyletswyddau yn well.

Gall y swydd neu gyfrifoldeb hynny fod fel:-
 - Cadeirydd neu Is-gadeirydd Craffu,
 - Aelod Cabinet
 - Pencampwr
 - Aelod o'r Pwyllgor Pensiynau
 - Cadeirydd neu Is-gadeirydd unrhyw bwyllgor arall.
 - Cynrychioli Gwynedd fel Aelod o gorff allanol
 - Aelod etholedig unigol sy'n rhan o Ymchwiliad Craffu, lle y byddai mynychu'r cwrs yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Ymchwiliad Craffu.
(DS. Bydd unrhyw ymweliadau gan sawl aelod fel rhan o Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried fel rhan o waith yr ymchwiliad a nid fel "cwrs")
- Ni ddylai'r "cwrs ychwanegol" fod ar gael o fewn y Rhaglen Hyfforddiant Aelodau Etholedig neu bod modd ei drefnu mewn ffordd gwahanol ar gyfer criw o aelodau yn fewnol er mwyn lleihau'r gost.
- Dylid ystyried a yw'r cwrs yn cynnig gwerth am arian, hynny yw, fod cost y cwrs yn faen prawf.
- Dylid ceisio osgoi teithio drwy drefnu, os yn bosib, i gymryd rhan neu wrando ar y "cwrs ychwanegol" drwy ddulliau amgen ee webinar / fideo gynhadledd
- Anelu at uchafswm o 2 "gwrs ychwanegol" fesul aelod ym mhob blwyddyn
- Rhaid ystyried perthnasedd y cwrs i raglen ddatblygu personol yr aelod etholedig.

Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu'r drefn a ganlyn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'u hawdurdodi.

- Dylai aelod gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig (ar lythyr neu e-bost) gan esbonio sut y maent yn cyrraedd y meini prawf
- Dylid sicrhau fod gan yr aelod eilydd i'r cais, ee Cadeirydd neu is-Gadeirydd pwyllgor penodol yn cefnogi cais gan aelod unigol yn rhinwedd ei rol.
- Dylid cyflwyno'r cais o leiaf bythefnos rhag blaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cyn penderfynu ar y cais neu beidio
- Yr uchod i asesu y cais yn erbyn y meini prawf a gadael i'r aelod wybod y canlyniad. Dylid hefyd sicrhau fod trefniadau adrodd nôl a chrynhoi/ rhannu'r wybodaeth ychwanegol yn glir (Bydd hwn yn amrywio fesul cais/ maes).